Ysgol y Fro, Llanaber, TT13 6TR
Pennaeth: Mrs J.S. Williams

31 Mai

Annwyl Riant

Ysgrifennaf er mwyn sôn wrthych am gynllun gwirfoddol rydym yn bwriadu ei gyflwyno i aelodau o Flwyddyn 8 yn ystod y tymor nesaf.

Mae arbrawf diweddar, sydd wedi ei gynnal mewn ysgol gynradd yn Lloegr, wedi profi bod cynnig gwersi ynganu, neu siarad yn gywir, wedi arwain at welliant aruthrol yng ngwaith ysgrifenedig y disgyblion – nid mewn Saesneg fel pwnc yn unig ond ar draws y cwricwlwm. Gan eu bod yn cael eu dysgu i ddweud y geiriau'n gywir, maent yn llwyddo i'w sillafu'n gywir. Nid hynny'n unig, ond maent yn llwyddo i fynegi eu safbwyntiau a'u barn ac i gyfleu syniadau yn fwy effeithiol, fel eu bod yn tyfu'n blant llawer mwy hyderus.

Mae tîm rheoli'r ysgol hon wedi penderfynu cynnig gwersi ynganu Cymraeg tebyg ar ôl yr ysgol yn ystod y tymor nesaf. Rydym yn estyn gwahoddiad i'ch mab / merch, a fydd yn dechrau ym Mlwyddyn 8 ar 4 Medi, ddod i'r gwersi. Bydd y gwersi'n cael eu cynnal ar nos Fawrth o 3.45 tan 4.45, gan ddechrau ar 5 Hydref. Bydd y gwersi hyn yn costio £20.00 am ddeg gwers – a gofynnir i chi dalu yn ystod y wers gyntaf, os gwelwch yn dda. Os bydd eich plentyn yn eu mynychu, disgwyliwn i chi wneud trefniadau i'w gasglu ar ôl y wers.

Hoffem bwysleisio nad ceisio cael gwared ar acenion yr ardal yr ydym, gan fod cadw acen leol yn bwysig iawn. Yn hytrach, ceisio cynorthwyo disgyblion i fynegi'u hunain yn dda a chodi safonau ysgrifennu yw'n nod. Gallai hyn fod yn beth da iawn ar gyfer y dyfodol, wrth gwrs, pan fydd rhaid i'ch plentyn ymgeisio am le mewn coleg neu brifysgol neu wneud cais am waith a mynychu cyfweliadau. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn dilyn gyrfa yn y byd cyhoeddus, e.e. actio, cyflwyno, dysgu ac ati, gall y cynllun fod o fudd mawr iddo / iddi.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn trafod y cynllun gyda'ch mab / merch ac yn dychwelyd y bonyn isod i'r ysgol erbyn 10 Mehefin fan bellaf.

Yn gywir

M. Williams

M. Williams (Pennaeth yr Adran Gymraeg)

✂.........................................................................................................................

Enw'ch mab / merch: ____________________________________________

Dosbarth: ________________

Hoffwn / Ni hoffwn i fy mab / merch fynychu'r gwersi hyn.

Llofnod: ____________________________________________________